Cyfraniadau Datblygwyr i Ysgolion

Mae hwn yn un o gyfres o nodiadau cyfarwyddyd cynllunio lleol a fwriadwyd i ymhelaethu ar bolisi GDP2 yng Nghynllun Datblygu Unedol Wrecsam (CDU) a nodi'r amgylchiadau a'r lleoliadau lle y bydd angen cyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn darparu cyfleusterau addysg. Mabwysiadwyd y CDU ym mis Chwefror 2005 ac mae'r nodyn hwn nawr yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar yr holl bolisïau cynllunio perthnasol.

Cynllunio Addysg yn Wrecsam

At ddibenion cynllunio addysg mae cysylltiadau rhwng rhai ysgolion cynradd ac uwchradd mewn grwpiau ledled y Fwrdeistref Sirol yn cael eu cynnal. Mae Polisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor yn caniatau dymuniad rhiant, oni bai y byddai gwneud hynny yn anffafrio defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau. Mae 98% o ddisgyblion yn cael lle yn unol â dewis cyntaf eu rhieni.

Cefndir i'r Nodyn Cyfarwyddyd

Mae awdurdodau lleol dan bwysau ariannol cynyddol i gwrdd â'r anghenion addysgol sy'n codi o ddatblygiadau preswyl. Yn gynyddol, gall hyd yn oed ddatblygiadau cymharol fach gael effaith sylweddol ar ddarparu lleoedd ysgol. Mae Cylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig, 'Ymrwymiadau Cynllunio', yn caniatáu i gyfraniadau datblygwyr wrthbwyso canlyniadau negyddol datblygiad ar yr amod y ceir cyfarwyddyd ar hyn yn y cynllun datblygu lleol. Mae CDU Wrecsam yn rhoi cyfarwyddyd drwy polisi GDP2 ar allu'r isadeiledd a chyfleusterau cymunedol.

Mae gweddill y nodyn hwn yn rhoi gwybodaeth bellach am sut y gweithredir y polisi hwn

Meini Prawf

Bydd unrhyw gyfraniadau gan ddatblygwyr yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol:

- Bydd yn berthnasol yn unig i ddatblygiadau arfaethedig ar gyfer pedwar ty neu mwy, p'un ai ydynt yn cael eu hadeiladu o'r newydd neu eu haddasu, neu'r defnydd ohonynt yn cael ei newid. Cymerir gofal i sicrhau nad yw'r datblygiad cyfan yn cael ei is-rannu neu ei gyflwyno'n raddol mewn ymgais i osgoi'r trothwy hwn.

- Bydd yn berthnasol yn unig i ysgolion â phrinder lleoedd ar ôl cynnwys y disgyblion ychwanegol sy'n debygol o gael eu creu gan y datblygiad arfaethedig.

- Nifer yr unedau preswyl arfaethedig a'u math (tai mawr neu fychain, byngalos neu fflatiau). Rhoddir mwy o fanylion yn Nhabl 1

- Cymhareb y disgyblion i bob uned dai sy'n berthnasol i'r ysgolbriodol neu ysgolion priodol ar lefel gynradd ac uwchradd.

- Lleoliad y datblygiad ac effaith tebygol ar ysgolion presennol. Asesir hyn drwy ddefnyddio'r un meini prawf â Pholisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor mewn perthynas ag agosrwydd. Mae map o ardaloedd yr ysgolion ar gael gan yr Adran Gynllunio..

Os nad oes lle mewn ysgolion presennol ar gyfer y disgyblion posibl a grëir gan y datblygiad arfaethedig, cyfrifir tâl cymudo drwy luosi'r lleoedd ychwanegol sydd eu hangen â'r gost ar gyfer y disgyblion (gweler Tabl 1) i greu'r swm sydd i'w gynnwys yn yr ymrwymiadau cynllunio. Yn ôl doethineb y Cyngor, gall cyfraniadau a wneir drwy ryddhau tir ar gyfer ysgol newydd neu drwy adeiladu uniongyrchol gael eu hystyried fel dewis arall yn lle talu swm cymudo.

Amseru cyfraniadau

Bydd angen i unrhyw ddarpariaeth addysgol adeiledig gael ei chwblhau i adlewyrchu'r preswyliad a fwriedir ar gyfer y cartrefi. Ar gyfer datblygiadau mwy, ystyrir talu'n raddol er mwyn cyd-fynd â rhaglenni adeiladu a phreswylio.

Cyfarwyddiadau ynghylch costau

Bwriad y cyfarwyddiadau canlynol yw rhoi syniad i ddarpar-ddatblygwyr o oblygiadau posibl eu cynigion:

- Mae 100 o dai'n cynhyrchu tua 28 o ddisgyblion oed cynradd a thua 20 o ddisgyblion oed uwchradd.

- Ar gyfer datblygiadau sy'n cynhyrchu 100 o ddisgyblion a mwy, rhoddir ystyriaeth i ysgol newydd ar safle newydd, gan ddibynnu ar leoliad a chynnydd posibl yn y dyfodol, a disgwylir i'r ymgeisydd gyfrannu'n unol â nifer y lleoedd ysgol y mae'r datblygiad yn ei gynhyrchu.

- Bydd y Cyngor yn nodi'r ardal a natur y gwaith y bydd y cyfraniad yn ei ariannu. Bydd ddim yn nodi ysgol oherwydd effallai bydd angen i ddatblygu darpariaeth newydd yn lleol.

- Ble mae angen cyfraniad arianol, mi fydd angen Cytundeb drafft Adran 106 fel rhan o'r cais cynllunio. Ceir templed Adran 106 ar ymofyniad o'r Adran Gynllunio.

Ysgolion lle mae'n debygol y bydd angen cyfraniadau

Mae'r rhestr isod yn dangos yr ysgolion lle mae'n debygol y bydd angen cyfraniadau. Mewn ysgolion eraill, mae'n debygol y bydd ychydig o leoedd dros ben ar gyfer rhywfaint o ddatblygiad. Nid yw hon yn rhestr derfynol, ond yn ganllaw i ddatblygwyr.

Ysgolion Uwchradd

Bryn Alyn, Gwersyllt (11 i 18 oed)
Maelor, Penley (11 i 18 oed)
Darland, Rossett (11 i 18 oed)

Ysgolion Cynradd

Clwstwr Ysgol Bryn Alun, Gwersyllt

Brymbo Aided, St Mary's
Brynteg C.P.
Gwersyllt C.P.
New Broughton C.P.,
Ysgol Penrhyn
Pentre Broughton C.P.
Tanyfron C.P.

Clwstwr Ysgol Dinas Bran, Llangollen (Sir Ddinbych)

Dim Ysgolion

Clwstwr Ysgol Maelor, Llannerch Banna

Hanmer
Penley Madras
Marchwiel C.P.

Clwstwr Y Grango, Rhosllannerchrugog

Fabanod Johnstown Iau
Johnstown
Penycae C.P.

Clwstwr Darland, Yr Orsedd

Gresffordd
Merffordd C.P.

Clwstwr Rhiwabon (11 i 18 oed)

Acrefair C.P.
Ruabon Maes y Llan C.P.
Ruabon St. Mary's

Clwstwr Clywedog, Wrecsam

Bwlchgwyn C.P.
Marchwiel C.P.
Rhostyllen C.P.
Victoria C.P.
St Giles

Clwstwr Sant Joseff, Wrecsam

St. Mary's

Clwstwr Rhiwabon (11 i 18 oed)

Acton Park C.P.
Alexandra C.P.
Babanod Parc Borras C.P.
Iau Parc Borras
Rhosddu C.P.

Clwstwr Morgan Llwyd, Wrecsam (11 i 18 oed)

Ysgol Plas Coch C.P Wrecsam

TABL 1: Canllawiau ynghylch costau			
Math o Ysgol	**Nifer y disgyblion a grëir gan bob t~ 2-3 ystafell wely**	**Lluosydd Costau Adeiladu £**	**Cyfraniad £**
Cynradd 4 - 11 oed	0.28	12257	3432
Uwchradd 11 – 16 oed	0.20	18469	3694
Ôl-16	0.04	12000	480
Cyfansymiau			
Ysgol â 6ed Dosbarth	0.52		4440
Ysgol heb 6ed Dosbarth	0.48		3960

Nodiadau

- Lluosyddion costau adeiladu yn seiliedig ar gyfarwyddyd yr Adran Addysg ynghylch dyraniadau disgyblion ac asesiad o gyfartaledd ygost adeiladu.

- Pwysoliad 1 ystafell wely a llety ar. gyfer yr henoed dim tâl, 2/3 ystafell wely tâl safonol (gweler uchod), 4+ ystafell wely dros 20%

- Mawardaloedd Clwstwr Ysgol yn ysgolion uwchardd a'u hysgolion bwydo cynradd a Polisi presennol y Cyngor ar agosrwydd I ysgolion

- Asesiadau poblogaeth ysgolion i'w hadolygu'n flynyddol.

Enghraifft ar gyfer Ardal Clwster Ysgol Fabanod Johnstown

Ar gyfer datblygiad o :-

- 10 - 1 ystafell wely Uned
- 10 - 2 ystafell wely Uned
- 10 - 3 ystafell wely Uned
- 10 - 4 ystafell wely


Taliadau ar lefel ysgol gynradd


10 - 1 ystafell wely	dim tâl
10 - 2 ystafell wely	tâl safonol
10 * £1960	= £19600
10 - 3 ystafell wely	tâl safonol
10 * £1960	= £19600
10 - 4 ystafell wely	tâl safonol 20%
10 * £2352	= £23520

Taliadau ar lefel ysgol uwchradd

Dim prinder, dim tâl.

Map1
Lleoliad Ysgolion y Tu Allan i Ganol Tref Wrecsam




Map 2
Lleoliad Ysgolion Tref
Wrecsam
1 Ysgol Uwchradd
2 Ysgol Gynradd
3 Meithrinfa
4 Ysgol Arbennig
LEA Swyddfa yr Awdurdod Addysg Lleol
Sylwer * Ysgolion Cyfrwng Cymraeg, enwau ysgolion a chyfeiriadau ar y dudalen ganlynol
Hawlfraint y Goron a gedwir Rhif Trwydded O.S 100023429. Mai 2010. Nid yw raddfa
wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam
ACTON
BORRAS
RHOSDDU
RHOSNESNI
PARC CAIA
HIGHTOWN
OFFA
Melin Y Brenin
Parc Acton
The Dunks
Parclau
Ysbyty Maelor Wrecsam
ALI Stryt yr Arglwydd
Ysgol Uwchradd Rhosnesni
Ysgol Morgan Llwyd*
Ysgol Clywedog
Ysgol Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff
Ysgol Sant Christopher
Ffordd Gwenallt Bonsko
Ffordd y Bers
Ffordd Croesnewydd
Ffordd Rhuthun
Ffordd Rhiwabon
Ffordd Y Bers
Ffordd Stansty
Ffordd Caer
Lôn y Beth
Ffordd Borras
Ffordd Holt
Ffordd Bryn Estyn
Lôn Prices
Rhodfa'r Parc
Ffordd Montgomery
Ffordd Cefn
Queensway
Ffordd Melin y Bryn
Bonny Cottages
Ffordd Ercleg
Sandley Rd
Parc Gwledig Erddig
Canolfan Elias
N